



dysgucymraeg.cymru  
learnwelsh.cymru  
Ceredigion, Powys a Sir Gâr  
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire



1872 PRIFYSGOL  
ABERYSTWYTH  
UNIVERSITY

# Llawlyfr y Cwrs Course Handbook

## Cwrs Haf Dwys 2022

**Cwrs Dysgu Cymraeg o bell 4 wythnos drwy Zoom**

**An intensive 4 week Learn Welsh summer course**

**held via Zoom Awst 1-26 August 2022**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Dysgu  
Learn

# Cynnwys

<b>Beth yw'r Cwrs Haf Dwys?</b>	<b>3</b>
<b>Disgrifiadau Lefelau Iaith</b>	<b>5-7</b>
<b>Strwythur y Cwrs</b>	<b>7</b>
<b>Gweithgareddau Dysgu Anffurfiol</b>	<b>9</b>
<b>Cyn Dechrau - Pwysig</b>	<b>9</b>
Anghenion Technegol	9
Anghenion Arbennig	9
<b>Dosbarthiadau &amp; Amserlen Ddyddiol</b>	<b>11-15</b>
Sut i ymuno â'r dosbarth yn wythnosol	11
Eich diwrnod cyntaf – Sesiwn Groeso	11
Gwaith annibynnol a 'gwaith cartref'	11
Absenoldebau	11
Sut i ddefnyddio Zoom	13
Diogelwch Defnyddio Zoom	13
Elfennau hanfodol o ethos y cwrs	13
Beth i'w wneud a pheidio â'i wneud o fewn dosbarth Zoom	15
<b>Adnoddau Defnyddiol</b>	<b>17-18</b>

# Contents

<b>What is the Cwrs Haf Dwys?</b>	<b>4</b>
<b>Language Level Descriptions</b>	<b>6-8</b>
<b>Course Structure</b>	<b>8</b>
<b>Informal Learning Activities</b>	<b>10</b>
<b>Before Starting the Course - Important</b>	<b>10</b>
Technical Requirements	10
Special Requirements	10
<b>Classes and Daily Timetable</b>	<b>12-16</b>
How to join the class each week	12
Your first day - Welcome Session	12
Autonomous study and 'homework'	12
Absences	12
How to use Zoom	14
Security and using Zoom	14
Core elements of the course ethos	14
Zoom Class Do's and Don'ts	16
<b>Useful Resources</b>	<b>17-18</b>

Cydlynnydd a Thiwтор Ymgynghorol y Cwrs yw Felicity Roberts ac fe fydd hi ar gael i gynorthwyo. Gall myfyrwyr a thiwtoriaid ofyn iddi am arweiniad lle bo ansicrwydd ynglŷn â rhywbeth, boed yn fater academiaidd neu'n fwy personol. Gallwch gael gair â Felicity drwy e-bost neu sesiwn Zoom wyneb yn wyneb wedi ei threfnu ymlaen llaw. Rhian Lloyd a Lowri Mair Jones yw Cynorthwywyr Gweinyddol y cwrs, a byddant hefyd ar gael i ddelio â materion gweinyddol a threfniadol.

**Felicity Roberts:** [afr@aber.ac.uk](mailto:afr@aber.ac.uk)

**Rhian Lloyd & Lowri Jones:** [dysgucymraeg@aber.ac.uk](mailto:dysgucymraeg@aber.ac.uk) | 0800 876 6975 | +441970 622236

The Course Coordinator and Consultative Tutor is Felicity Roberts, who will be at hand to help both students and tutors with any issues that arise, whether they are academic or of a more personal nature. You can have a word with Felicity by sending her an e-mail, or by arranging a face to face meeting through Zoom. The Administrative Assistants for the course are Rhian Lloyd and Lowri Mair Jones.

**Felicity Roberts:** [afr@aber.ac.uk](mailto:afr@aber.ac.uk)

**Rhian Lloyd & Lowri Jones:** [dysgucymraeg@aber.ac.uk](mailto:dysgucymraeg@aber.ac.uk) | 0800 876 6975 | +441970 622236

# Beth yw'r Cwrs Haf Dwys?

## Nodau ac Amcanion

Y nod yw darparu cwrs dwys dysgu o bell, a fydd yn cynnwys dysgu drwy fideo gynhadledd Zoom a dysgu annibynnol, gyda'r amcan o alluogi dysgwyr i gwblhau un lefel mewn pedair wythnos neu hanner lefel mewn dwy wythnos.

**Rhaid pwysleisio bod y cwrs hwn yn un llawn amser, ac nad yw'n ymarferol i neb feddwl ei wneud, a bod yn gweithio ar yr un pryd. Nid yw'n ymarferol chwaith i ymgymryd â gorchwylion mawr eraill fel symud tŷ yn ystod y Cwrs.**

Mae'r cwrs hwn yn darparu ar gyfer ystod eang o ddysgwyr – o'r rhai ag ychydig iawn o Gymraeg neu ddim o gwbl, i'r rhai sydd yn rhugl ond sydd am wella ansawdd eu Cymraeg. I ddechreuwyr dyma gyfle i feistroli sgiliau cyfathrebu sylfaenol yn yr iaith, mewn cyn lleied o amser â phosib, ac y mae'n gyfle i bawb gymryd camau breision i feistroli'r Gymraeg. **Cyflwynir Cymraeg safonol, â gogwydd de Cymru iddo**, yn y dosbarthiadau ar y lefelau cyntaf. Wrth ddringo fesul gris i'r lefelau uwch bydd yr aelodau yn ymgynfarwyddo fwy a mwy ag amrywiaethau yn y Gymraeg.

Mae hwn yn gwrs pedair wythnos, a dysgir chwe lefel arno. Plethir y pedair sgil sydd ynghlwm â dysgu iaith i mewn i weithgareddau dysgu'r dosbarth. Y brif nod yw cael pobl i allu siarad yn Gymraeg, gan fagu mwy a mwy o hyder i wneud hynny. I'r diben hwn mae'r amserlen yn ddywys iawn. Fodd bynnag byddwn yn neilltuo amser i adolygu ac ymarfer y sgiliau iaith sy'n cael eu meithrin. Bydd y sgiliau o wrando a deall, a'r gallu sylfaenol i allu darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn cael eu meithrin ar y gwahanol lefelau yn ogystal. Mae cwrsllyfr ar gyfer pob lefel, ac fe fydd y gwahanol diwtoriaid, pob un yn brofiadol a dawnus, yn eu defnyddio yn eu ffordd unigryw eu hunain o ddysgu. Bydd defnyddio cymaint o Gymraeg ag sy'n bosibl yn cael ei feithrin ar bob lefel o'r cychwyn cyntaf.

## Mynediad at gwrslyfrau ac adnoddau

Defnyddir y cyrsiau newydd ar gyfer dysgu Cymraeg, a baratowyd gan y Ganolfan Genedlaethol. Bydd y cwrsllyfrau ar gael yn rhad ac am ddim drwy'r we ar ffurf PDF – dolenni isod.

[Mynediad](#)

[Sylfaen](#)

[Canolradd](#)

[Uwch 1](#)

[Uwch 2](#)

[Uwch 3 | Gloywi](#)

Yn ogystal anogir pob dysgwr i brynu copi caled o'i cwrsllyfr drwy ei archebu o Gwales neu siop lyfrau leol, os ydynt yn dymuno: <http://www.gwales.com/>

# What is the Cwrs Haf Dwys?

## Aims and Objectives

The aim is to provide an intensive distance learning course, which will combine learning through Zoom video conferencing with autonomous learning, with the objective of enabling students to complete one level in four weeks, or half a level in two weeks.

**It must be emphasised that this is a full-time course and that it is not practical for anybody to be working at the same time as trying to follow the course. It is not feasible either for anybody to try and do the course at the same time as major life changes, such as moving house.**

This course caters for a broad spectrum of learners: those with little or no knowledge of Welsh, as well as graded classes for those on a continuum between being beginners and being fluent speakers but wanting to improve the accuracy of their spoken and written skills. For beginners, this is an opportunity to master basic communicative skills within as short a period as possible, and for everybody it is a chance to take strides towards real improvement and mastery of the Welsh language. We will introduce a **standard form of Welsh, with a southern slant to it** in the classes at the first levels. With each progressive step towards the higher levels, students will become more and more familiar with variations in the Welsh language.

There will be six levels taught on the four-week course and the four skills involved in language learning are blended into the class language activities. The main aim is to enable you to speak Welsh, and increasingly gain confidence in your ability. To this end the timetable is very demanding. Nevertheless, there will be time for revision, and practicing the language skills acquired on the course. We will foster listening comprehension and the basic ability to read and write Welsh at the different levels. Each level has its own coursebook, and the different tutors, all being experienced and skilled, will use them in their own unique style of teaching. We will encourage use of as much Welsh as possible at each level, right from the start. Patterns are thoroughly revised throughout the course.

## Accessing coursebooks and resources

We will use new coursebooks which have been prepared by the National Centre for Learning Welsh. The coursebooks are available in PDF form, free of charge:

[Entry](#)

[Foundation](#)

[Intermediate](#)

[Advanced 1](#)

[Advanced 2](#)

[Advanced 3 | Proficiency](#)

We also recommend that all students buy their own hard copy of the coursebook, by ordering it from Gwales or a local bookshop, if they so wish: <http://www.gwales.com/>

# Disgrifiadau Lefelau Iaith

## Grŵp 1 - Mynediad

Dosbarth i ddechreuwyr yw'r lefel Mynediad. Dros y 4 wythnos cyflwynir hanner yr holl batrymau a ystyrir yn sylfaenol i allu cynnal sgyrsiau yn Gymraeg, fel y byddwch yn dysgu confensiynau sgwrsio a chymdeithasu â'ch gilydd ar y lefel gychwynnol. Er enghrafft byddwch yn dysgu sôn am y presennol, ond hefyd byddwch yn dysgu sut i drafod profiad yn y gorffennol diweddar, a'r hyn a oedd yn arfer gennych chi ymhellach yn ôl. Byddwch yn dechrau dysgu'r patrymau iaith a ddefnyddir wrth siarad am y dyfodol yn ogystal.

## Grŵp 2 – Sylfaen

Mae'r lefel hon ar gyfer pobl sydd wedi cwblhau cwrs Mynediad. Dros y pedair wythnos, gan adeiladu ar y deunydd ar lefel Mynediad, cyflwynir hanner arall y patrymau a ystyrir yn sylfaenol i allu cynnal sgyrsiau yn Gymraeg a deall beth mae pobl eraill yn ddweud. Byddwch yn parhau i ddatblygu sgliliau cymdeithasu gan ddysgu sôn, er enghrafft, am fannau geni a magwraeth drwy ddysgu patrymau'r goddefol, a hefyd yr amodol, er mwyn medru sôn am beth fasech chi'n wneud tasai amgylchiadau'n caniatáu. Enghreiffiau pellach o'r hyn y byddwch yn ei ddysgu ar y lefel hon yw sut i fynegi barn a chymharu, rhoi cyngor, a chadarnhau sut i ateb cwestiynau yn gywir.

## Grŵp 3 - Canolradd

Dyma'r lefel lle byddwch chi'n adolygu'r sylfeini a ddysgwyd yn ystod y cyrsiau Mynediad a Sylfaen, ynghyd ag adeiladu arnynt, a dod yn fwy rhugl yn yr iaith, gan ehangu geirfa a dealltwriaeth gyffredinol. Bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio cymaint â phosib fel iaith y dosbarth a gobeithir y byddwch yn mentro defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol y tu allan i'r dosbarth. Byddwch yn cael darnau darllen a deall, a gwrandio a deall o ddiddordeb, ynghyd ag ymarferion a gweithgareddau. Bydd y pethau hyn yn rhoi cyfle i chi gadarnhau gwybodaeth o amseroedd berfau, a chymalau ac arddodiaid, er mwyn eich helpu i fireinio'ch defnydd o'r iaith. Byddwch yn ymgyfarwyddo â deall y newyddion yn Gymraeg, a'r iaith ychydig yn fwy ffurfiol sy'n cyd-fynd â hynny.

## Grŵp 4 - Uwch 1

Ar y lefel hon bydd disgwyli chi allu ymdopi â'r Gymraeg yn cael ei defnyddio fel iaith gyfathrebu rhwng tiwtor a myfyrwyr, a rhwng myfyrwyr a'i gilydd. Dyma'r cam cyntaf at feistrol i'r Gymraeg ar lefel uwch, a'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y byd Cymraeg go iawn. Byddwch yn cael cyfle i ddechrau dod yn gyfarwydd â chyweiriau mwy ffurfiol yr iaith ysgrifenedig, yn ogystal â datblygu sgliliau defnyddio'r iaith ar lafar yn ddeheuig. Rhoddir sylw i arddodiaid cyfansawdd, cynffoneiriau a iaith gyhoeddus er enghrafft. Byddwch yn parhau i ymestyn y defnydd o batrymau sylfaenol ac adeiladu arnynt, er mwyn hwyluso'ch defnydd o'r iaith yn y byd gwaith yn ogystal ag yn gymdeithasol.

# Language Level Descriptions

## Group 1 - Mynediad / Entry level

The 'Entry' level which is called 'Mynediad' in Welsh is a class for beginners. Over the 4 weeks we will introduce half of all the patterns which are considered basic for being able to hold conversations in Welsh, so that you will learn the conventions of chatting and socialising at a primary level in the language. For example, you will learn to discuss situations in the present, and also how to talk about the recent past, together with things that you used to do further back in your lives. You will also make a start on the patterns used for talking about the future.

## Group 2 - Sylfaen / Foundation level

This level is for people who have completed a 'Mynediad' course. Over the four weeks, whilst building on the material introduced at 'Mynediad' level, we will introduce the other half of all the patterns considered basic to being able to hold conversations in Welsh, and understanding what other people are saying. Socialising skills will continue to be developed. For example, you will learn to talk about where you were born and brought up, by learning to use the patterns of the passive voice, and using the conditional to talk about what you might do were your circumstances to permit it. Further examples of what is taught at this level are, being able to express an opinion and compare, give advice, and consolidate how to answer questions correctly.

## Group 3 - Canolradd / Intermediate level

This is the level where the basics that were learnt on the Mynediad and Sylfaen courses are reviewed, and you will go on to build on this foundation, becoming more fluent in the language, expanding vocabulary and general comprehension. Welsh will be used as much as possible as the language of the class, and hopefully you'll gain confidence to use Welsh increasingly outside the classroom too. Interesting listening and reading comprehension pieces form part of the course, together with exercises, and activities which will afford the opportunity to consolidate how to handle verb tenses, clauses and prepositions in order that you can gain ground with correct use of Welsh. You will become familiar with understanding news bulletins in Welsh, and the slightly more formal type of Welsh used in them.

## Group 4 - Uwch 1 /Advanced Level 1

At this level it is expected that you will be able to take it in your stride that Welsh will be the norm as regards communication between tutor and student, and between student and student. This is the first step towards gaining mastery of the Welsh language at a more advanced level, and being able to use both spoken and written Welsh in the real Welsh speaking world. You will be afforded the opportunity to start becoming familiar with the more formal registers of written Welsh as well as developing adroit fluency in spoken Welsh. Compound prepositions, verbal tags, and use of Welsh in public will be given attention for example. We will continue to extend and build upon the use of basic patterns, to facilitate the use of the language in the workplace as well as in social situations.

## **Grŵp 5 - Uwch 2**

Y bwriad ar y lefel hon yw i'r myfyrwyr sy'n dilyn y cwrs hwn, ennill meistrolaeth ar yr iaith, yn ei gwahanol gyweiriau. Byddwch yn datblygu hyfedredd yn yr iaith yn naturiol yn y grŵp hwn wrth i'r Gymraeg gael ei defnyddio rhwng yr aelodau â'i gilydd yn ogystal â rhyngddynt â'r tiwtor. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o dafodieithoedd llafar Cymru yn ogystal â'r iaith ysgrifenedig, boed ar gyfer pwrpas busnes, mwynhau llenyddiaeth neu ysgrifennu'n anffurfiol. Cewch eich tywys i ymgyfarwyddo â phriod-ddulliau'r Gymraeg, a'r ffordd arbennig y bydd Cymry'n mynegi eu hunain ynddi. Rhoddir peth gwybodaeth gefndirol ddiwylliannol sylfaenol, sy'n rhan o'r hyn y mae'n ei olygu i berthyn i'r gymuned Gymraeg ei hiaith. Cewch hefyd flas ar batrymau'r iaith lenyddol fel y mae'n cael ei defnyddio mewn rhai nofelau, cerddi a chaneuon sy'n agos at galon y Cymry.

## **Grŵp 6 - Uwch 3 | Gloywi**

Cwrs yw hwn ar gyfer dysgwyr profiadol neu siaradwyr Cymraeg rhugl a fydd yn naturiol yn defnyddio'r Gymraeg â'i gilydd, ac sydd am fireinio a datblygu eu sgiliau llafar ac ysgrifenedig i'r eithaf. Ceir cyfle i ymgyfarwyddo â Chymraeg ffurfiol ochr yn ochr â Chymraeg mwy llafar, yn systematig ac yn drefnus drwy'r cwrs. Ym mhob uned ceir ymarferion i gadarnhau ffurfiau cywir, a dealltwriaeth drwyndl o Gymraeg idiomatig da. Defnyddir darnau darllen o gylchgronau Cymraeg cyfoes a deunydd gwylio a gwrando o Radio Cymru ac S4C, rhai ohonynt a ddefnyddiwyd yn arholiadau blaenorol Defnyddio'r Gymraeg Uwch. Yn y Cwrs hwn plethir gloywi iaith ag astudio Cymraeg y Gymru gyfoes yng nghyd-destun pynciau ar ei chefndir diwylliannol a'i hanes cymdeithasol. Yn ogystal ceir cyfle da i drafod pynciau llosg Cymru a'r byd dan arweiniad y tiwtoriaid.

## **Strwythur y Cwrs**

Mae'r cwrslyfrau wedi eu rhannu yn unedau unigol. Mae'r unedau wedi eu llunio gyda'r bwriad o alluogi dysgwyr i **wneud** pethau yn Gymraeg, a defnyddio'r iaith i gyfathrebu, e.e. cyfarch pobl, dweud beth dych chi wedi bod yn ei wneud, gofyn am bethau, ac ati. Mae pob uned yn canolbwytio ar batrymau gramadegol penodol, ond pwysleisir ar yr un pryd nad oes rhaid i chi fod yn gyfarwydd â thermau gramadegol fel y cyfryw. Mae gwaith cartref gyda phob uned i atgyfnerthu'r gwaith llafar. Ceir llawer o ddeunydd digidol ar y we yn cyd-fynd â phob cwrs. Bydd disgwyl i chi ddefnyddio rhai o'r rhain pan fyddwch yn gwneud eich gwaith astudio annibynnol, fel rhan greiddiol o'r cwrs. Bydd cael eich cyflwyno i iaith newydd yn ystod y wers yn golygu ymarfer a chofio ymadroddion byr. Fe gewch gyfle hefyd i ymarfer mewn parau neu grwpiau. Er mwyn sicrhau eich bod yn cael cyfle i weithio â phobl wahanol bydd y tiwtor yn trefnu i hyn ddigwydd ar-lein.

Nid mater o weithio drwy bob tudalen yn y cwrslyfr yn slafaidd fydd hi, ond bydd y tiwtoriaid yn cynllunio sut y gellir cyflawni lefel gyfan drwy ddeithol y deunydd mwyaf creiddiol yn yr unedau a phob tiwtor yn ei gyflwyno fel y gwelant orau. Mae gweithgareddau yn amrywio o uned i uned. Byddwch yn barod i **ddefnyddio** beth dych chi wedi'i ddysgu yn ystod y gweithgareddau, y gemau iaith, yr holiaduron, gwaith pâr / grŵp, ac ati.

*Os oes arnoch angen gair neu ymadrodd arbennig neu os oes arnoch eisian trafod rhyw bwnc arbennig, gofynnwch i'r tiwtor am gymorth.*

## **Group 5 - Uwch 2 / Advanced Level 2**

The intention at this level is that students who follow this course will gain mastery of the language, in its variety of registers. Competence in the language is developed naturally in this group, as the members use it with each other as well as between them and the tutor. Comprehension of the spoken dialects of Wales will be developed as well as that of the written language, be that for business purposes, enjoying novels, poetry and such like, or just for being able to write informally. Attention will be given to linguistic idioms natural to native speakers. The basic culture in which the Welsh language exists will form the subject matter of some lessons, as part of what it means to belong to the Welsh speaking community. Students will be given a taste of the language as it occurs in some of the best loved novels, poems, and songs.

## **Group 6 - Uwch 3 / Advanced Level 3 | Proficiency**

This is a course for experienced learners or fluent Welsh speakers, who will naturally use Welsh within the group, and who wish to enhance and develop their communicating skills to the utmost in both their written and spoken Welsh. The course is organized to provide the opportunity for students to systematically become familiar with formal Welsh alongside more colloquial Welsh. In each unit there are tasks designed so that students can consolidate what is regarded as correct Welsh, and gain a thorough grasp of good idiomatic Welsh. Excerpts from contemporary Welsh publications, and viewing and listening comprehension material from Radio Cymru and S4C are used, to foster understanding the language in greater depth, and how to use it in different situations in present day Wales. All this is embedded in interesting contexts about its cultural background and its social history. You'll also get plenty of practise in using Welsh for discussing some current burning issues in Wales and world-wide.

## **Course Structure**

The course is divided into individual units. The units are designed to enable learners to **do** things in Welsh, and to use the language to communicate, e.g. greeting people, saying what you did, asking for something, etc. Each unit also focuses on particular grammatical patterns, although it should be stressed that the knowledge of grammatical terms as such is not necessary. There is 'Gwaith Cartref' (Homework) with each unit which is intended to reinforce the oral work. There is an abundant amount of digital materials online that accompany each course. You will be expected to access some of these when you do your independent study as an integral part of the course. Being introduced to a new language during the lesson will involve practising and memorising short phrases. You will also get a chance to practise in pairs or groups. In order to ensure that you have the opportunity to work with different people the tutor will organise this online for you.

It will not be a process of working slavishly through every page in the coursebook, but the tutors will have planned how it will be possible to complete a whole level, by selecting the core elements of the units, and each one of them presenting the material as they see best. Activities vary from unit to unit. Be prepared to **use** what you've learnt during activities, language games, questionnaires, pair/group work, etc.

*If you need a particular word, phrase, or just want to discuss a particular topic, ask the tutor.*

## Gweithgareddau Dysgu Anffurfiol

Bydd dwy sesiwn o weithgareddau dysgu anffurfiol bob wythnos. Bydd y rhain yn para tua awr yr un. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu darparu er mwyn rhoi cyfle i bawb ymarfer neu glywed y Gymraeg y tu allan i strwythur y Cwrslyfr, a hefyd er mwyn rhoi cyfle i chi gymdeithasu y tu hwnt i ffiniau eich dosbarth Zoom chi.

Byddwch yn derbyn manylion y rhaglen ddysgu anffurfiol cyn dechrau'r cwrs.

## Cyn Dechrau - Pwysig

### Anghenion Technolegol

Bydd y gwensi yn cael eu cynnal ar y we dros Zoom. Er mwyn cymryd rhan ar y cwrs, bydd rhaid i chi gadarnhau bod gyda chi'r offer addas canlynol er mwyn cymryd rhan yn y dosbarth:

- Mynediad cryf a dibynadwy i'r we
- Camera gwe
- Cyfrifiadur/ gliniadur gyda sain
- Meicroffon
- Lleoliad tawel i gymryd rhan yn y gwensi

**Nodwch nad yw cysylltiad Zoom drwy ffôn symudol yn unig yn addas ar gyfer dysgu o bell.**

### Prawf Zoom cyn y gallwch gychwyn

Bydd aelod o staff Adran Dysgu Cymraeg yn cysylltu â chi i sicrhau bod eich adnoddau technegol yn ddigonol i chi allu dilyn y Cwrs yn fodhaol.

### Anghenion Arbennig

A fyddch cystal â rhoi gwybod os oes gennych unrhyw anghenion arbennig yn deillio o anableddau, boed yn rhai gweledol, clywedol neu arall. Fe wnawn ein gorau i ateb eich gofynion.

## Informal Learning Activities

There will be two evening sessions of informal learning activities for about an hour each week. These activities are provided to give everybody a chance to practise or hear Welsh outside the framework of the Coursebook, as well as to socialise beyond the boundaries of your Zoom classroom.

You will receive details of the informal learning programme before the start of the course.

## Before Starting the Course - Important

### Technical Requirements

The lessons will be conducted online via Zoom. By applying for a place on the course, you confirm that you have the following suitable equipment in order to participate in the class:

- Strong and reliable access to the internet
- A webcam
- A PC/laptop with sound
- A microphone
- A quiet location to take part in the lessons

**Please note that connecting to Zoom on a mobile phone alone is not suitable for distance learning.**

### Zoom Test before you can start

A member of the Learn Welsh Department will contact you to make sure that your technical resources are adequate for you to be able to follow the course sufficiently well.

### Special Requirements

Please let us know if you have any special requirements stemming from visual, hearing, or other disability. We will do our best to accommodate your needs.

## Dosbarthiadau ac Amserlen Ddyddiol

### Sut i ymuno â'r dosbarth yn wythnosol

Byddwn yn rhoi manylion pellach i chi cyn y cwrs, gan gynnwys manylion Zoom i ymuno â'r dosbarthiadau a'r gweithgareddau. **Bydd disgwyl i chi fynychu pob ddosbarth drwy Zoom yn ddyddiol.**

### Eich Diwrnod Cyntaf - Sesiwn Groeso

Ar ddydd Llun cyntaf eich cwrs, bydd disgwyl i chi ymuno â sesiwn groeso cyn eich gwers gyntaf. Bydd y sesiwn yn dechrau am 08:30. Byddwn yn rhoi manylion pellach i chi cyn y cwrs.

Amserlen	
Bore	
09:00 – 10:30	Dosbarth Zoom
10:30 – 11:30	Toriad
11:30 – 13:00	Dosbarth Zoom
Prynhawn	
13:00 – 15:30	Dysgu personol, a chyflie i gael cymorth gan y tiwtor drwy e-bost neu Zoom. Byddwn yn gosod gwaith annibynnol am tua 2 awr bob dydd.
15:30 – 17:00	Dosbarth Zoom
Gyda'r Nos	
(yn dechrau am 19:30, fel arfer)	Gweithgareddau anffurfiol ddwy noson yr wythnos

Gwaith annibynnol a 'gwaith cartref'	
Gall dysgwyr dderbyn cymorth gan y tiwtor neu'r Cydlynnydd, drwy ebost neu Zoom. Bydd modd i chi drefnu sesiwn 10 munud i gael cymorth ag unrhyw bwyntiau y gallech chi eu cael yn anodd eu deall.	
Absenoldeb oherwydd amgylchiadau annisgwyl, e.e. salwch	
Os na fedrwch chi fynychu'r cwrs am gyfnod neu unrhyw sesiwn unigol oherwydd salwch neu amgylchiadau annisgwyl, gofynnwn i chi roi gwybod i'r swyddfa trwy ebost ( <a href="mailto:dysgucymraeg@aber.ac.uk">dysgucymraeg@aber.ac.uk</a> ), neu drwy adael neges ar ein peiriant ateb (0800 876 6975   +441970 622236).	
O ran cynnal eich hyder, mae'n well peidio â cholli dosbarth o gwbl os oes modd. Fodd bynnag bydd patrymau iaith yn cael eu hadolygu'n drwyndl yn rheolaidd drwy gydol y Cwrs.	

## Classes and Daily Timetable

### How to join the class each week

We will send you more details before the course, including how to join the classes and activities on Zoom. **You will be expected to attend every "class through Zoom" session each day.**

### Your First Day - Welcome Session

On the first Monday of your course, you will be expected to join a welcome session before your first lesson. This session will begin at 08:30. We will send you more details before the course.

Timetable	
Morning	
09:00 – 10:30	Class through Zoom
10:30 – 11:30	Break
11:30 – 13:00	
11:30 – 13:00	Class through Zoom
Afternoon	
13:00 – 15:30	Personal learning, and the opportunity to receive support from your tutor via email or Zoom. We will set personal learning tasks for about 2 hours per day.
15:30 – 17:00	Class through Zoom
Evening	
(usually a 19:30 start)	Informal activities two nights a week

Autonomous study and 'homework'
Students can be given assistance from the tutor or the Course Coordinator through e-mail or Zoom.
You can book a 10-minute session to address any point you might find difficult.

Absence due to unforeseen circumstances, e.g. sickness
If you are unable to attend the course itself or any session during the course due to illness or unforeseen circumstances, please let us know by contacting the office by email ( <a href="mailto:learnwelsh@aber.ac.uk">learnwelsh@aber.ac.uk</a> ) or by leaving a message on our answering machine (0800 876 6975   +441970 622236.)
It's best for your confidence not to miss any classes if possible. However, patterns are thoroughly revised throughout the Course.

## Sut i ddefnyddio Zoom

Mae defnyddio Zoom yn rhwydd a didrafferth. Gallwch wyllo fideo (yn Saesneg) [yma](#) ar sut i ymuno â chyfarfod Zoom.

Byddwn yn cadarnhau gyda chi bod eich cyswllt â Zoom yn gweithio cyn dechrau'r cwsr.

## Diogelwch Defnyddio Zoom

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi penderfynu safoni dysgu ar Zoom ar gyfer darparu dysgu o hirbell gan Adran Dysgu Cymraeg. Mae Zoom yn rhaglen sydd yn cynnig nifer o fanteision arbennig ar gyfer dysgu trwy fideogynadledda. Does dim rhaid i chi fel dysgwyr greu cyfrif er mwyn defnyddio'r meddalwedd, felly does dim rhaid rho'i ch gwybodaeth bersonol i Zoom. Mae'r Brifysgol yn ofalus iawn i wneud yn siŵr ein bod yn amddiffyn eich diogelwch a'ch preifatrwydd wrth ddefnyddio Zoom yn yr un modd ag y bydden ni mewn ystafell ddosbarth draddodiadol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio nifer o nodweddion i sicrhau bod eich profiad ar Zoom gyda ni, yn un diogel a phositif.

## Elfennau hanfodol o ethos y cwsr

Mae'r elfennau yma'n rhan greiddiol o'r cwsr, a fydd yn gymorth mawr i chi gyrraedd eich nod:

- Defnyddiwch gymaint o Gymraeg ag y gallwch gan gynyddu dipyn bach bob dydd
- Gwnewch eich gorau, gan ymdrechu i gyrraedd eich nod, a gan wybod bod pawb yn dysgu gwahanol agweddau ar feistrioli iaith ar eu cyflymdra eu hunain
- Rhowch eich ffydd yn eich tiwtoriaid, pob un â'i steil unigryw, a helpwch nhw i'ch helpu chi
- Byddwch yn ddewr gan fentro defnyddio'ch iaith newydd, cyn gallu siarad yn berffaith
- Daliwch ati heb ddiglonni, gan wybod bod gwneud camgymeriadau yn rhan anorfad o'r broses ddysgu iaith
- Byddwch yn garedig: drwy fod yn amyneddgwr, yn siriol ac yn gwrtas

## How to use Zoom

Zoom is very accessible and user-friendly. Please watch this [video](#) to see how to join a Zoom meeting.

We will check with you that your access to Zoom is working before the start of the course.

## Security and Using Zoom

Aberystwyth University has decided to standardise teaching on Zoom for the purpose of providing a distance learning facility with the Learn Welsh Department. Zoom is a programme that offers a number of particular advantages for distance learning and teaching, through videoconferencing. You as learners do not have to create an account in order to use the software, and therefore you do not have to disclose your personal information to Zoom. The University is very careful to make sure that we safeguard your privacy as you use Zoom, in the same way as we would in a traditional classroom. This includes the use of a number of features that ensure that your experience on Zoom with us is a safe and positive one.


## Core elements of the course ethos

The following elements are considered essential to its success and will greatly assist you to reach your goal:

- Use as much Welsh as you can, adding a little bit more every day
- Do your best, making a real effort to reach your goal, knowing that individuals learn different aspects of language learning at their own pace
- Put your faith in your tutors, each with their unique style of teaching and help them to help you
- Be brave and dare to use your new language before you speak it perfectly
- Persevere, without getting disheartened, knowing that making mistakes is an inevitable part of language learning
- Be kind: by being patient, cheerful and courteous


### Beth i'w wneud a pheidio â'i wneud o fewn dosbarth Zoom

- Ceisiwch beidio â siarad ar draws pobl eraill, a chodwch eich llaw pan fydd arnoch eisiau siarad
- Sicrhewch eich bod yn defnyddio eich botwm i ddiffodd eich sain i osgoi tarfu ar y dosbarth gyda sŵn cefndirol, fel ffôn yn canu yn eich cartref a pherson arall i'w glywed yn ateb
- Ni chaniateir recordio
- Caniateir tynnu lluniau o ddogfennau ar y sgrin i bwrrpas dysgu mewn ystafelloedd ar wahân, er enghraift. Ni chaniateir tynnu llun o bobl yn y dosbarth heb ganiatâd



### Zoom Class Do's and Don'ts

- Try not to speak across other people, and put your hand up when you want to speak
- Make sure that you use your 'mute' button to shut out background noise which might arise in your home, such as the phone ringing and another person being heard answering it
- Do not record
- You may take photographs of documents used for facilitating learning in breakout rooms, for example. Taking photographs of people in the class is not permitted without permission of the whole class



# Adnoddau Defnyddiol | Useful Resources

## Adnoddau Dysgu | Learning resources

<https://learnwelsh.cymru/learning/online-taster-courses/>

Cyrsiau blasu 10 awr ar lein Cymraeg Gwaith yn rhad ac am ddim. Er mwyn cael mynediad at y cwrs, rhaid i chi fewngofnodi, a dewis ‘arall’ o dan restr y cyflogwyr, os nad yw eich cyflogwr chi ar y rhestr.

*Free 10 hour Work Welsh taster courses. In order to access the course, log in and select your employer, or if not listed, select ‘other’.*

<https://www.saysomethingin.com/welsh/level1/challenge1>

Cwrs dysgu Cymraeg ar-lein sy’n defnyddio podcastiau  
*Online Welsh course using podcasts*

<https://www.duolingo.com/course/cy/en/Learn-Welsh-Online>

Safle poblogaidd iawn i ddysgu Cymraeg ar lein  
*A popular language learning site*

<http://quizlet.com/subject/welsh/>

Cardiau fflach ar-lein er mwyn dysgu ac adolygu geirfa  
*Flashcards to learn and revise vocabulary*

<http://www.s4c.cymru/cy/dysgu-cymraeg/>

Gwefan S4C ar gyfer dysgwyr – yn cynnwys rhaglenni wedi’u teilwra ar gyfer dysgwyr  
*S4C [Welsh language broadcaster] learners’ website – includes programmes tailored for learners*

[https://www.bbc.co.uk/sounds/play/live:bbc\\_radio\\_cymru](https://www.bbc.co.uk/sounds/play/live:bbc_radio_cymru)

Radio Cymru  
Gwrando’n fyw neu wrando eto ar raglenni diweddar  
*Welsh language national radio – listen live or listen again to recent programmes*

<https://www.cbac.co.uk/qualifications/welsh-for-adults/>

Gwybodaeth am adnoddau ac arholiadau Dysgu Cymraeg.  
*Information about Learn Welsh resources and examinations.*

## Gwybodaeth a newyddion am Gymru / News and information about Wales

[www.bbc.co.uk/cymru/](http://www.bbc.co.uk/cymru/)

Newyddion a gwybodaeth am Gymru  
*News and information about Wales*

[www.golwg360.com/](http://www.golwg360.com/)

Papur newyddion cenedlaethol ar-lein  
*Online national newspaper*

## Geiriaduron ar lein / Online dictionaries

[www.gweiadur.com/](http://www.gweiadur.com/)

Project i greu geiriadur ac adnoddau amlgyfrwng ar gyfer defnyddwyr y Gymraeg o bob oedran a gallu  
*A project to create a multimedia dictionary and resources for Welsh speakers of all ages and ability*

[www.geiriaduracademi.org/](http://www.geiriaduracademi.org/)

Geiriadur Saesneg-Cymraeg ar-lein yr Academi Gymreig

*English-Welsh dictionary from the Welsh Academy*

<http://www.geiriadur.ac.uk/>

Geiriadur Cymraeg Prifysgol Cymru – y geiriadur hanesyddol safonol Cymraeg  
*University of Wales Welsh Dictionary – the standard historical Welsh dictionary*

[The Welsh-Dictionary App: Language Technologies Unit, Canolfan Bedwyr \(bangor.ac.uk\)](#)

Mae'r Ap Geiriaduron yn eiriadur Saesneg-Cymraeg / Cymraeg Saesneg sy'n caniatáu i chi chwilio all-lein am filoedd o eiriau Cymraeg a Saesneg trwy nifer o ffynonellau, gan gynnwys CysGair, Y Termiadur Addysg a'r Termiadur Addysg Uwch.

Ap Geiriaduron is as an English-Welsh/Welsh-English dictionary application for your iPhone, iPad or Android device which gives you offline access to thousands of words from multiple dictionary sources, including Cysgair and 'Y Termiadur Addysg'.



dysgucymraeg.cymru  
learnwelsh.cymru  
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**  
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**



Dysgu  
Learn